Dawns Genedlaethol Ieuenctid Cymru – *Step Up*

Gwybodaeth i Riant / Gwarcheidwad y Sawl sy'n cael ei enwebu

Mae ***Step Up*** yn fenter gyffrous i ddawnswyr ifanc (14-18 oed) sy'n awyddus i 'gamu' i lefel arall o her a phrofiad.

Dan arweiniad Cyfarwyddwr Artistig, **Errol White**, bydd ***Step Up*** yn cynnig cyfle hyfforddi dwys i'r sawl sy'n cymryd rhan a fydd yn canolbwyntio ar dechneg a sgiliau craidd mewn dosbarth, ac mewn sesiynau creadigol a repertoire. Mae ***Step Up*** yn rhaglen genedlaethol a fydd yn cynnig tri chwrs preswyl yn 2011/12 (un bob tymor) a fydd wedi'u lleoli'n strategol yng Ngogledd, De a Chanolbarth-/Gorllewin Cymru, a bydd pob un sy'n cymryd rhan yn cael blas ar fod yn aelod o DGIC a'r hyn sy'n cael ei ddisgwyl ganddynt.

Rhaid i'r dawnswyr gael eu henwebu gan eu harweinydd/athro dawns. Dylai'r rhai sy'n cael eu henwebu fod rhwng 14 a 18 oed, yn cymryd rhan weithgar mewn dawns a dylent allu dangos gwir botensial o ran dawns greadigol, gyfoes. Dylent ddangos ymrwymiad, ymroddiad a brwdfrydedd yn eu dosbarthiadau rheolaidd, a gallu gweithio'n dda mewn tîm. Dylent fod yn angerddol am ddawns a dawnsio, ac yn awyddus i wella.

Ymrwymiad a chostau
Rhaid i'r sawl sy'n cael ei enwebu ymrwymo i'r dyddiadau canlynol:
Dydd Sadwrn 26ain a dydd Sul 27ain Tachwedd 2011 (De Cymru)
Dydd Iau 5ed Ionawr a dydd Gwener 6ed Ionawr 2012 (Gorllewin Cymru)
Dydd Sadwrn 21ain a dydd Sul 22ain Ebrill 2012 (Gogledd Cymru)

Mae'r penwythnosau'n rhai gwbl breswyl. Gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan gyfrannu £50* am bob cyfnod preswyl (I dalu am yr holl diwtora, llety, bwyd, yswiriant a threfniadau lles).
*Rydym yn awyddus i sicrhau na fydd anawsterau o ran talu na chyrraedd y lleoliad yn eithrio nac yn anfanteisio darpar gyfranogwyr. Bydd DGIC yn gweithio gyda phartneriaid a'r rhai sy'n cael eu henwebu i ganfod bwrsariaethau a/neu noddwyr, a syniadau codi arian, lle bo angen.

Mae gwybodaeth ychwanegol ac/neu eglurhad ar gael gan arweinwyr dawns ieuenctid neu **suzanne.firth@nyaw.co.uk** (029 2026 52079). Rhaid dychwelyd ffurflenni enwebu wedi'u llenwi a'u llofnodi erbyn **Dydd Llun 31 Hydref 2011**.
*Mae'n ofynnol cael llofnod yr enwebwr, a'r llofnod rhiant/gwarcheidwad os yw'r un sy'n cael ei enwebu'n iau na 18 oed NEU lofnod yr un sy'n cael ei enwebu (os yw dros 18 oed)